Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Medi 2020

# Ymgynghoriad Cymru Ein Dyfodol: Dadansoddiad o'r ymatebion

## Cyflwyniad

Ym mis Mai 2020, gwahoddodd Llywodraeth Cymru y cyhoedd i anfon eu meddyliau am y camau sy’n angenrheidiol i gefnogi adferiad ac ailadeiladu wedi COVID-19. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar 685 o'r 2,021 o sylwadau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i’r broses ymgynghori, ac rydym wedi eu dadansoddi'n fanwl. Nid yw'n cynnwys mwy na 900 o ymatebion a oedd yn rhan o ymgyrch gydlynol, a oedd fel ei gilydd yn gwneud yr un pwyntiau yn y bôn, sydd eisoes wedi'u cynnwys mewn ymatebion eraill. Nid yw ychwaith yn cynnwys ymatebion a oedd yn canolbwyntio'n gul iawn ar leddfu mesurau cloi tymor byr gan nad yw'r rhain yn berthnasol mwyach ac nid ydynt yn berthnasol i'r broses adfer ac ailadeiladu tymor hir.

Trefnir yr ymatebion o dan y chwe maes thematig sydd wedi dod i’r amlwg o’r dadansoddiad: Cymdeithas; Economi; Amgylchedd; Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant; Ymgysylltiad gwleidyddol; a Thechnoleg ddigidol. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at ddau fater trawsbynciol - anghydraddoldebau a dyfodol gwaith - a ddaeth i'r amlwg yn gryf o'r dadansoddiad.



## Cymdeithas

Mae'r prif bynciau a godwyd gan ymatebion yn y maes hwn yn cynnwys addysg, tai, cyflogaeth ac adeiladu cymunedol.

### Addysg

Soniodd nifer sylweddol o ymatebion am yr angen i wella addysg a hyfforddiant yng Nghymru er mwyn 'adeiladu'n ôl yn well'. Pryder penodol oedd y gallu i gadw pobl ifanc yng Nghymru ar ôl iddyn nhw gwblhau eu haddysg a'u hyfforddiant. Ymhlith y ffyrdd posibl o wneud hyn a awgrymwyd gan ymatebwyr roedd ymyriadau â ffocws sy'n nodi disgyblion talentog ac yn darparu cyfleoedd hyfforddi sy'n datblygu i fod yn gyflogaeth barhaus â chyflog da. Ymhlith yr enghreifftiau roedd Academi Arweinwyr y Dyfodol neu raglen 'Llwybr Cyflym Bywyd Go Iawn y Gwasanaeth Sifil'. Roedd cefnogaeth i ailffocysu addysg ar fentrau seiliedig ar chwarae i wella datblygiad a llesiant plant iau. Yn ogystal, roedd rhai ymatebion o blaid rhoi mwy o bwyslais ar yr amgylchedd a'r byd naturiol yn y cwricwlwm. Yn fwy cyffredinol, codwyd cwestiynau ynghylch sut i gyflwyno dysgu ymarferol, rhyngweithiol, creadigol a allai ddigwydd yn yr awyr agored, yn ogystal â chaniatáu mwy o amser 1:1 yn y diwrnod ysgol. Roedd cefnogaeth i les emosiynol a chymdeithasol plant mewn gofal maeth a pharhad mentrau cyllido yn y maes hwn hefyd yn feysydd y credai rhai ymatebwyr y dylid eu blaenoriaethu. Yn olaf, dadleuodd ymatebwyr dros well hyfforddiant i'r gweithlu addysg.

### Tai

Y prif bryder yma oedd darparu tai fforddiadwy, addas, gan gynnwys cyflenwi ac ansawdd tai i bobl agored i niwed. Roedd cefnogaeth i fuddsoddi mewn adnewyddu tai yn y sector preifat, yn enwedig er mwyn cyfyngu ar risg haint COVID-19. Roedd cyflwyniadau eraill yn cynnig defnyddio ffynonellau ynni cynaliadwy ar gyfer cartrefi yng Nghymru a symud i statws 'Sero Net'. Mynegwyd rhwystredigaeth ynghylch perchnogaeth ail gartrefi a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar godi prisiau allan o afael y boblogaeth leol. Yn olaf, er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd, awgrymwyd troi tai gwag ac unedau manwerthu neu swyddfa sy'n wag o ganlyniad i'r pandemig yn dai.

> **Roedd yr ymatebwyr yn dadlau o blaid mentrau sy'n hyrwyddo llesiant gan gynnwys treulio mwy o amser yn yr awyr agored a rhyngweithio â'r byd naturiol, gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a chefnogaeth ar gyfer mynediad at fwyd iach, fforddiadwy ac ymarfer corff.**

### Cyflogaeth

Gweithio gartref oedd y prif bwnc gydag ymatebwyr yn pwysleisio'r effaith gadarnhaol ar leihau lefelau straen, y gallu i gydbwyso gwaith ag ymrwymiadau cartref / cymdeithasol a chael mwy o amser i gymryd rhan mewn ymarfer corff. Fodd bynnag, amlygodd rhai ymatebwyr anfanteision gweithio gartref fel unigrwydd ac ynysu cymdeithasol. At ei gilydd, roedd yr ymatebion yn awgrymu y byddai cyfuniad o weithio gartref a gweithgaredd yn y swyddfa yn well yn y dyfodol.

### Adeiladu cymunedol

Mae'r term hwn yn cwmpasu sawl strategaeth i wella cydlyniant cymunedol ledled Cymru. Yn ystod y cyfnod clo, gwelwyd cymunedau'n cefnogi ei gilydd heb fod angen ymyrraeth gan y llywodraeth. Credai ymatebwyr fod angen adeiladu ar y mentrau cymunedol cadarnhaol hyn. Gallai'r camau gweithredu gynnwys cynyddu'r ddarpariaeth o leoedd cymunedol a darparu rhaglenni hyfforddi a chyllid i helpu pobl i sefydlu grwpiau cymunedol newydd, ac roedd rhai ymatebwyr yn gwrthwynebu cyllido mentrau a oedd yn dyrannu cyllid trwy gystadleuaeth. Trwy roi sylw i'r anghenion hyn, dywedwyd y bydd cymunedau'n gallu adeiladu clymau cymunedol cryfach a mwy cydlynol.

## Economi

Roedd y ddau brif gynnig yn y maes hwn yn ymwneud â darparu gwell cefnogaeth i fusnesau sy'n eiddo i Gymru a'r economi gylchol.

### Busnesau sy'n eiddo i Gymru

Dadleuodd cyflwyniadau dros well datblygiad busnes ar ffurf cynlluniau, mentrau a ffrydiau cyllid y llywodraeth sy'n annog twf busnesau yng Nghymru. Awgrymwyd bod cyfle i gefnogi gallu Cymru fel canolbwynt ar gyfer diwydiannau creadigol yn ogystal â 'brand' cynnyrch Cymru, yn enwedig bwyd a diod, gan gymharu â menter debyg yng Nghernyw.

### Economi gylchol

Roedd llawer o ymatebion o blaid datblygu economi gylchol a model economaidd 'Donut' Kate Raworth (sy'n cyflwyno gweledigaeth ar gyfer economi deg a chynaliadwy trwy ddod â phryderon cymdeithasol ac amgylcheddol ynghyd mewn un dull gweithredu). Dadleuwyd bod Cymru mewn sefyllfa dda i ddatblygu model tebyg, ac erbyn hyn bod mwy o angen gwneud 'symudiad economaidd beiddgar' fel hwn.

## Amgylchedd

Yn ogystal â chanolbwyntio ar yr argyfwng hinsawdd wrth 'ailadeiladu' ar ôl pandemig COVID-19, y prif faterion a godwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â'r amgylchedd oedd yr 'economi werdd', ail-wylltio, amaethyddiaeth, mannau gwyrdd, cynhyrchu bwyd a thrafnidiaeth werdd.

### Yr 'economi werdd'

Roedd galwadau am seilio'r economi yng Nghymru ar gyflenwadau ynni cynaliadwy pŵer gwynt, dŵr a solar. Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn gweld Cymru fel gwlad sydd mewn sefyllfa dda i ddatblygu ynni cynaliadwy, er gwaethaf rhywfaint o wrthwynebiad i ddatblygiad ffermydd gwynt.

> **Roedd yr ymatebwyr yn dadlau bod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i hwyluso cymdeithas decach a mwy cyfartal trwy gulhau'r bwlch rhwng y cefnog a'r rhai mewn angen.**

### Ail-wylltio, amaethyddiaeth a mannau gwyrdd

Amlygodd cyflwyniadau mai ased mwyaf Cymru yw ei hamgylchedd naturiol a bod angen ei amddiffyn yn well.  Gallai mentrau gynnwys "ail-wylltio, coedwig ar gyfer cynaeafu, coedwigaeth cylchdro byr a phrysgwydd cylchdro byr" a chyfyngu ar nifer y toriadau glaswellt yn achos ymylon a gwrychoedd. Bydd hyn hefyd yn galw am "leihau nifer yr anifeiliaid rydym ni'n eu pori, a faint o dir sy'n cael ei ddefnyddio i dyfu bwyd i anifeiliaid" a rheoli ucheldiroedd yn well. Awgrymwyd y gallai pob ardal leol hefyd dderbyn cefnogaeth ar gyfer man gwyrdd 'yn ôl i natur' a oedd yn agored i bawb.

### Cynhyrchu bwyd

Roedd yr ymatebwyr am i Lywodraeth Cymru annog siopa'n lleol a thyfu'ch bwyd eich hun. Cynigiwyd "Gwasanaeth Bwyd Cenedlaethol Cymru sy'n ceisio dileu ansicrwydd bwyd a mynd i'r afael â materion rhyng-gysylltiedig ynysu cymdeithasol a gwastraff bwyd". Awgrymwyd y dylid cryfhau labelu bwyd ar draws y sectorau manwerthu, gwasanaeth bwyd a lletygarwch er mwyn i'r defnyddiwr allu gwneud penderfyniadau prynu gwybodus.

### Trafnidiaeth werdd

Roedd llawer o gynigion ynghylch trafnidiaeth werdd eisiau mwy o lwybrau beicio er mwyn lleihau dibyniaeth ar geir a thrafnidiaeth gyhoeddus trwy ei gwneud yn fwy diogel beicio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith. Roedd cefnogaeth ar gyfer buddsoddiad ychwanegol mewn seilwaith gwefru Cerbydau Trydan. Aeth rhai cynigion ymhellach gan awgrymu y dylid gwahardd gwerthu cerbydau petrol a dîsl i wella ansawdd aer, yn enwedig mewn dinasoedd fel Caerdydd.

## Iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant

Roedd yr ymatebion am iechyd a gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar wella ansawdd y ddarpariaeth gofal yng Nghymru, llesiant, ac anghydraddoldebau iechyd.

### Ansawdd gofal

Awgrymwyd bod angen sicrhau hyfforddiant a thâl gwell i'r rhai sy'n gofalu am y rhai sy'n sâl ac mewn sefyllfa fregus.  Roedd galwadau i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol - "Dylai Cymru arwain ar greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol (NCS), a ddarperir yn lleol ac sy'n estyn egwyddor rhad ac am ddim y GIG i ofal cymdeithasol". Roedd ymatebwyr hefyd o blaid hyfforddiant a chefnogaeth bellach i alluogi trafodaethau sensitif rhwng clinigwyr a chleifion ynghylch gofal diwedd oes.

### Llesiant

Roedd yr ymatebwyr yn dadlau o blaid mentrau sy'n hyrwyddo llesiant gan gynnwys treulio mwy o amser yn yr awyr agored a rhyngweithio â'r byd naturiol, gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a chefnogaeth ar gyfer mynediad at fwyd iach, fforddiadwy ac ymarfer corff. Ymhlith y syniadau roedd mwy o hyfforddiant ar draws y GIG a gofal cymdeithasol i alluogi staff i gychwyn “sgwrs 'sut ydych chi mewn gwirionedd'"; gwneud technegau rheoli straen iechyd meddwl yn rhan o'r cwricwlwm; gwell darpariaeth yn y gweithle (yn gorfforol neu’n rhithwir) er mwyn osgoi llosgi allan; a'r angen i ddelio â'r ôl-groniad o iechyd meddwl gwael sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o gamdriniaeth ac arwahanrwydd yn ystod y cyfnod clo.

### Anghydraddoldebau iechyd

Mynegwyd pryderon ynghylch darpariaeth gofal iechyd anghyfartal yng nghefn gwlad Cymru o gymharu â’r ardaloedd trefol. Mae hyn yn cynnwys gofal sylfaenol, gwasanaethau iechyd meddwl, a gofal cymunedol, yn ogystal â hygyrchedd gwasanaethau fel apwyntiadau cleifion allanol a gwasanaethau meddygon teulu.

## Ymgysylltiad gwleidyddol

Mae tair elfen allweddol i'r thema hon: cynyddu cyfleoedd i ddinasyddion fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau; awydd i Gymru wahaniaethu ei hun oddi wrth San Steffan; a chyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Cynyddu cyfranogiad democrataidd dinasyddion

Cafwyd ymatebion lluosog o blaid cyflwyno Cynulliadau Dinasyddion, yn ogystal â galwadau am ddulliau democrataidd eraill a arweinir gan ddinasyddion er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn y canol wrth wneud penderfyniadau.

Dyfodol datganoli ac annibyniaeth - Roedd cefnogaeth i Gymru annibynnol. Roedd ymatebwyr nad oeddent yn barod i fynd mor bell â hynny yn dadlau o  blaid mwy o rymoedd datganoledig i Gymru, ac yn dadlau y dylai Llywodraeth Cymru wahaniaethu’n gliriach rhyngddi ei hun a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.  Argymhellwyd hefyd strategaeth gyfathrebu gliriach a negeseuon cryfach gan Lywodraeth Cymru ynghylch polisïau a mentrau, yn enwedig o ran COVID-19.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Pwysleisiodd llawer o gynigion yr angen am gyflawni dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er enghraifft, dadleuodd un ymatebydd “y gall Cymru unwaith eto fod yn enghraifft ddisglair, trwy wneud cynaliadwyedd yr amgylchedd a thegwch yn ganolog i’n heconomi a’n cynllun adfer wedi COVID-19”.

## Technoleg ddigidol

Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar anghydraddoldebau digidol, yn ogystal â photensial digidol i wella cynhyrchiant.



### Mynediad a llythrennedd digidol

Mynegwyd pryderon ynghylch anghydraddoldebau digidol yng Nghymru, yn bennaf o ran cyflymder band eang, ond hefyd o ran mynediad at dechnoleg a'r gallu i'w defnyddio. Mae'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig yn waelach nag mewn ardaloedd trefol ac mae hyn yn rhwystro'r gallu i gynnal busnes a

/ neu gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Er enghraifft, esboniodd un busnes nad yw'n gallu symud i ddarpariaeth ddigidol oherwydd nad yw eu gwasanaeth band eang cyfredol yn caniatáu iddynt gynnal cyfarfodydd ar-lein yn effeithiol. Teimlid mai nawr oedd yr amser delfrydol i gefnogi hyfforddiant sgiliau digidol i uwchsgilio gweithlu Cymru.

### Cynhyrchiant economaidd

Roedd rhai o'r farn bod y defnydd cynyddol o dechnoleg ddigidol yn ffordd i Gymru fynd i'r afael â'i phroblemau cynhyrchiant; gwella digideiddio diwydiannol fel y'i treialwyd yn y fenter *Made Smarter North West*; a chynyddu cymhellion cyllidol ar gyfer Ymchwil a Datblygu.

## Anghydraddoldebau

Un o'r themâu trawsbynciol a ddaeth i'r amlwg yn gryf o'r ymatebion oedd anghydraddoldebau canfyddedig ar sail oedran, hil a rhyw yng nghymdeithas Cymru. Roedd yr ymatebwyr yn dadlau bod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i hwyluso cymdeithas decach a mwy cyfartal trwy gulhau'r bwlch rhwng y cefnog a'r rhai mewn angen.

### Anghydraddoldeb digidol

Fel y soniwyd uchod, dadleuodd ymatebwyr fod angen gwell band eang arnom mewn ardaloedd gwledig, a mesurau i oresgyn eithrio digidol oherwydd diffyg hyfforddiant neu fynediad at offer, a chysylltedd gwael.

### Anghyfiawnder cyflog

Roedd tlodi mewn gwaith, y diffyg canfyddedig o ran codiadau cyflog yn unol â chwyddiant, a'r farn nad yw 'gweithwyr allweddol' (yn enwedig gweithwyr gofal a staff manwerthu) yn cael eu talu'n ddigonol am y gwaith maen nhw'n ei wneud yn themâu cyffredin. Roedd rhywfaint o gefnogaeth hefyd i gyflwyno Incwm Sylfaenol Cyffredinol yng Nghymru.

### Anghydraddoldeb iechyd

Yn ogystal ag anghydraddoldeb daearyddol, mae yna hefyd gasgliad bach ond cryf o gyflwyniadau sy'n sôn am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r diffiniad cymdeithasol o anabledd ac yn dadlau bod angen gwneud mwy i ganiatáu i bobl anabl gael mynediad i fannau cyhoeddus.

### Grwpiau lleiafrifol

Mae sawl cyflwyniad yn amlygu sut mae pandemig COVID-19 yn cael effaith wahaniaethol ar rai grwpiau. Awgrymwyd bod yr henoed ar eu colled oherwydd y mesurau cloi, a bod angen cynllun penodol i reoli risgiau iechyd yn y gweithle ar gyfer cymunedau BAME. Soniodd ymatebion eraill am fynediad at ofal iechyd a gwybodaeth (e.e. ynghylch cam-drin a thrais domestig) ar gyfer menywod a merched yn ystod y pandemig. I'r bobl hynny sy'n byw gydag anableddau, roedd pryder ynghylch y risg y byddai'r mesurau cyfredol yn cael effaith negyddol arnynt a sut gellid gwella mynediad diogel i wasanaethau.

## Dyfodol Gwaith

Yr ail thema drawsbynciol oedd 'dyfodol gwaith' yng Nghymru wedi'r cyfnod clo.  Un llinyn cyffredin yn yr ymatebion yw cwestiynau ynghylch sut y bydd COVID-19 a'r cyfnod clo yn effeithio ar sut rydym ni'n gweithio. Teimlai llawer o ymatebwyr fod gweithio gartref wedi gwella eu cynhyrchiant a'u gallu i gydbwyso eu gwaith a'u bywydau cartref, a chododd rhai faterion ynghylch dychwelyd i amgylchedd gwaith diogel. Roedd cwestiynau, fodd bynnag, ynghylch gallu pobl i ymdopi â defnyddio gwahanol fathau o dechnoleg ddigidol, yn enwedig pobl hŷn, a rhai o grwpiau sosio-economaidd is. Teimlid y gallai'r trefniadau gweithio newydd hyn ddarparu cyfleoedd cyflogaeth (er enghraifft, yn yr economi wybodaeth ehangach, yn ddigidol, ac yn y diwylliant) a chynlluniau adfywio â ffocws lleol, naill ai trwy fentrau preifat neu gynlluniau a ariennir gan y llywodraeth. Yn fwy cyffredinol,

thema gyffredin yw y bydd angen addasu seilwaith Cymru mewn ymateb i'r pandemig, a bod angen i Lywodraeth Cymru achub ar y cyfle hwn i ddarparu rhaglenni hyfforddi a phrentisiaeth i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Ar ben hynny, mynegodd rhai ymatebwyr ofnau ynghylch 'colli' doniau posibl wrth i bobl symud allan o Gymru i gael cyflogaeth. Ymhlith y meysydd a awgrymir ar gyfer ffocws penodol mae'r economi ddigidol a chreadigol, yr economi wybodaeth, adeiladu ac ynni gwyrdd. Er y soniwyd am gadw a chreu swyddi mewn cyflwyniadau, ni wnaed unrhyw gynigion sylweddol i helpu pobl i aros yn eu swyddi. Mae rhai cyflwyniadau yn dadlau dros yr angen i ailfeddwl ynghylch cyflogaeth fel rhan o strategaeth economaidd ehangach gan gynnwys adeiladu cartrefi, datgarboneiddio, a seilwaith digidol.


## Gwybodaeth am yr awduron:

Cate Hopkins - **Lab Cyfiawnder Data**, Dr Eleanor MacKillop a'r Athro James Downe - **Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**,


## Ein gwaith arall ar bandemig y Coronafeirws

Rydym wedi cynnal ystod o brosiectau i ddarparu tystiolaeth annibynnol i lunwyr polisi a gwasanaethau cyhoeddus ar adferiad economaidd a chymdeithasol wedi pandemig y Coronafeirws. Yn ogystal â phapurau a baratowyd ar gyfer y Grŵp Arbenigol a gynullwyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru, rydym wedi arwain asesiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth ar Gefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer menter Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar 'Rebuilding a Resilient Britain' dan arweiniad Syr Patrick Vallance; wedi cyhoeddi'r casgliadau a ddaeth gan chwe bord gron o arbenigwyr ynghylch adferiad wedi'r pandemig; ac wedi cynhyrchu cyfres o flogiau ar faterion allweddol gan gynnwys : unigrwydd yn y cyfnod clo, y goblygiadau i economi Cymru, pwysigrwydd ysgogiad gwyrdd i gynorthwyo adferiad, a dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

## Ynglŷn â Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.


Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.


I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:


**Eleanor Mackillop**

eleanor.mackillop@wcpp.org.uk



**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG

www.wcpp.org.uk/cy

029 2087 5345

info@wcpp.org.uk

@WCfPP



Cardiff University | Prifysgol Caerdydd

UKRI Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru | Welsh Government